Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**31 Mai 2023**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad i ba mor dda mae'r heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn mynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.**

Yr oedd yn destun pryder darllen yr adroddiad ar ba mor dda mae'r heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn mynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Er bod hwn yn faes gwaith cymhleth, mae'n amlwg bod angen safonau ymarfer gofynnol sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol. Roedd Dyfed-Powys yn un o'r heddluoedd a oedd yn rhan o'r archwiliad, ac roedd yn dda gennyf weld bod yr Heddlu wedi'i nodi fel enghraifft o arfer addawol.

Mae'r Heddlu'n cyflogi dadansoddwr ar gyfer adnabod plant mewn perygl a drwgdybiedigion. Mae dadansoddwyr yn adolygu gwybodaeth sgyrsiau gwe gan ddrwgdybiedigion er mwyn nodi troseddwyr posibl a dioddefwyr sy'n blant. Mae dadansoddwyr hefyd yn blaenoriaethu achosion fel bod yr Heddlu'n medru ymchwilio i'r achosion perygl uchaf yn y lle cyntaf. Maen nhw hefyd yn cyfeirio plant sy'n cael eu hadnabod i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn gweithio gyda phrifysgol leol i lunio rhaglen deallusrwydd artiffisial er mwyn helpu i hysbysu plant pan mae rhywun yn ceisio meithrin perthynas amhriodol gyda nhw.

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, rhannais fod Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl cynnydd o ran camfanteisio ar blant, materion diogelu ar-lein a thrais yn erbyn plant (mewn perthynas â Dileu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol). Rhoddais flaenoriaeth i gydnabod bregusrwydd plant a phobl ifainc, fel dioddefwyr neu droseddwyr, ac ymateb iddynt mewn ffordd wedi'i hysbysu gan drawma sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Rwy'n hyderus y bydd gan Heddlu Dyfed-Powys ffocws sylweddol ar fynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.

## Roedd naw argymhelliad o fewn yr adroddiad yn benodol ar gyfer gwasanaethau heddlu a/neu Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu:

### <u>Argymhelliad 1</u>

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer diogelu plant weithio gyda phrif gwnstabliaid a phrif swyddogion sy'n gyfrifol am unedau troseddu**

**trefnedig rhanbarthol er mwyn cyflwyno strwythurau goruchwylio a chydweithio rhanbarthol i gefnogi’r bwrdd Erlid. Dylai hyn:**

- **wella’r cyswllt rhwng arweinwyr lleol a chenedlaethol a’r ymateb rheng flaen;**
- **darparu craffu manwl a chyson o berfformiad; a**
- **bodloni rhwymedigaethau prif gwnstabliaid o ran mynd i’r afael â cham-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein, fel y nodir yn y Gofyniad Plismona Strategol.**

Mae cyfarfod rhanbarthol chwarterol Cam-drin a Chamfanteisio’n Rhywiol ar Blant Ar-lein yn cael ei gadeirio gan y Ditectif Uwch-arolygydd sydd yn gyfrifol am Weithdrefnau Troseddol ac Ymchwiliadau, sy’n cynnwys camfanteisio’n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol. Mae’r cyfarfod hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o’r pedwar heddlu yng Nghymru a’r Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol. Mae ganddi gynllun cyflenwi rhanbarthol byw ac mae’n gyfrifol am gasglu data rhanbarthol sy’n ymwneud â cham-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein, sydd yna’n cael ei ddadansoddi i ddarparu cudd-wybodaeth ar gyfer heddluoedd ac asiantaethau allanol. Enghraifft o’r gwaith sy’n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan y grŵp hwn yw’r ymateb i siopau e-sigarennau sy’n gysylltiedig ag ymelwa a cham-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein.

Mae cynrychiolydd rhanbarthol hefyd yn mynd i’r bwrdd ERLID ar ran y rhanbarth ac yn gwndid rhwng y cyrff cenedlaethol a gwasanaethau heddlu lleol.

## Argymhelliad 2

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai prif gwnstabliaid, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a phrif swyddogion sy’n gyfrifol am unedau troseddu trefnedig rhanbarthol sicrhau bod ganddynt wybodaeth rheoli perfformiad a chasgliad data effeithiol. Mae hyn er mwyn iddynt ddeall natur a maint cam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein mewn amser real ac effaith hyn ar adnoddau, ac fel bod heddluoedd a’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn medru ymateb yn gyflym i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer bodloni galw.**

Mae’r Heddlu’n rhoi data i’r dadansoddwr rhanbarthol cam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein fel bod modd casglu gwybodaeth a chynhyrchu pecynnau cudd-wybodaeth. Ardal Tarian (mae Tarian yn gweithredu ar draws tair ardal heddlu yng Nghymru: De Cymru, Gwent a Dyfed-Powys) yw un o’r rhanbarthau cyntaf i gynhyrchu proffil problem ar gam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant ar-lein sydd wedi’i baratoi ar gyfer ei rannu gyda heddluoedd â fersiwn ar gyfer asiantaethau partner.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Rhennir gwybodaeth ranbarthol am gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein â staff *SchoolBeat* (Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru) yng Nghymru.

**<u>Argymhelliad 5</u>** *[mae'r argymhelliad hwn yn dibynnu ar argymhellion 3 a 4: Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Coleg Plismona'n creu canllawiau dros dro; Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Coleg Plismona'n creu deunydd hyfforddi digonol erbyn Ebrill 2024]*

**Erbyn 30 Ebrill 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod swyddogion a staff sy'n ymdrin â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein wedi cwblhau'r hyfforddiant cywir ar gyfer cyflawni eu swyddi.**

Wrth aros am y gofynion hyfforddi newydd, mae'r Heddlu'n sicrhau bod disgwyl i bob ymchwilydd yn derbyn hyfforddiant Ymgyrch Modify. Mae pob recriwt heddlu newydd a'r rhai sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Ddatblygu Gychwynnol Ymchwilwyr Troseddau'n derbyn cyflwyniad ynghylch ymchwiliadau ar-lein. Mae staff y Tîm Ymchwilio i Bedoffiliaid Ar-lein yn derbyn hyfforddiant wedi'i deilwra i ddefnyddio cynnyrch a systemau sy'n hanfodol i'w rôl, gan gynnwys hyfforddiant Arf Asesu Risg ar y Rhyngrwyd Caint. Bydd pob Ditectif yn Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu'n derbyn yr hyfforddiant hwn yn 2023 hefyd.

**<u>Argymhelliad 8</u>**

**Erbyn 31 Gorffennaf 2023, dylai prif gwnstabliaid fodloni eu hunain eu bod nhw'n rhannu gwybodaeth yn gywir ac yn gwneud cyfeiriadau i'w partneriaid diogelu statudol mewn achosion o gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n bodloni eu rhwymedigaethau statudol, gan roi plant yng nghanol eu hymagwedd a chytuno ar gynlluniau ar y cyd i amddiffyn plant mewn perygl yn well.**

Cafodd prosesau Heddlu Dyfed-Powys eu cydnabod gan AHGTAEM yn archwiliad PEEL 2021 yr Heddlu fel rhai sy'n adlewyrchu'r arfer hwn, a chawsant eu trafod yn gadarnhaol yn ystod yr archwiliad thematig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn 2022.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Cynhaliwyd hap sampl yn gynharach eleni a gadarnhaodd bod cyfeiriadau'n cael eu derbyn mewn modd amserol gan yr Uned Gyfeirio Ganolog, sydd yna'n medru rhannu'r wybodaeth gyda phartneriaid yn unol â deddfwriaeth.

Mae hap sampl pellach o amseroldeb gwybodaeth a rannwyd gydag Awdurdodau Lleol wedi dangos bod yr Heddlu'n rhannu bron pob cyfeiriad o fewn 24 awr, gan alluogi'r Awdurdod Lleol i alw trafodaeth brydlon am strategaeth.

## Argymhelliad 9

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai prif gwnstabliaid a chomisiynwyr heddlu a throseddu sicrhau bod y gwasanaethau maen nhw'n eu comisiynu ar gyfer plant, a'r prosesau i'w cyfeirio ar gyfer cymorth neu wasanaethau therapiwtig, ar gael ar gyfer plant sydd wedi'u heffeithio gan gamfanteisio a cham-drin ar-lein.**

Mae'r gwasanaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol yr wyf wedi'i gomisiynu'n darparu gweithwyr argyfwng ac Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol arbenigol ar gyfer plant a phobl ifainc. Gall y rhain gefnogi plant sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn ogystal â throseddau cyswllt.

## Argymhelliad 11

**Erbyn 31 Gorffennaf 2023, dylai prif gwnstabliaid a chomisiynwyr heddlu a throseddu adolygu'r cyngor maen nhw'n cyhoeddi, a'i ddiwygio os oes angen, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â deunydd *ThinkUKnow* (Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.**

Mae'r Heddlu wrthi'n adolygu'r argymhelliad hwn ac unrhyw weithgarwch adferol, ac maen nhw wedi fy sicrhau y bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn y terfyn amser.

## Argymhelliad 13

**O hyn ymlaen, dylai prif gwnstabliaid fodloni eu hunain bod eu polisïau pennu troseddau'n sicrhau bod achosion cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn cael eu pennu i'r rhai**

**sydd â'r sgiliau ac sydd wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer ymchwilio iddynt.**

Mae Polisi Pennu Troseddau'r Heddlu'n nodi'n glir bod adroddiadau trosedd yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r model THRIVES (Bygythiad, Niwed, Perygl, Cyfleoedd Ymchwilio, Bregusrwydd, Ymgysylltu, Diogelu), ac yn cael eu pennu wedyn i'r aelod staff sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol. Er nad yw'n sôn am fathau penodol o droseddau, mae'r Heddlu wedi fy sicrhau bod y polisi'n berthnasol ar gyfer cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.

## Argymhelliad 14

**O hyn ymlaen, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod eu heddlu'n bodloni unrhyw amserlenni argymelledig sy'n bodoli ar gyfer gweithgarwch sy'n targedu cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein, a threfnu eu hadnoddau ar gyfer bodloni'r amserlenni hynny. Yna, chwe mis ar ôl gweithredu'r arf blaenoriaethu newydd, dylent gynnal adolygiad tebyg.**

Yr wyf wedi fy nghynghori bod archwiliad wedi'i gynnal yn ddiweddar o amseroldeb gweithgarwch gorfodi mewn ymateb i becynnau ar-lein. Ar gyfartaledd, mae amserlen o 2-3 wythnos o'r adeg y mae cyfeiriad yn cael ei dderbyn i Arf Asesu Risg ar y Rhyngrwyd Caint yn cael ei gwblhau. Mae ymholiadau'n cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn nodi drwgdybyn tybiedig y troseddu. Lle nad oes modd adnabod drwgdybyn tebygol, mae Arf Asesu Risg ar y Rhyngrwyd Caint yn cael ei gwblhau gyda phob nominal sy'n oedolyn sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad a'r perygl uchaf yn cael ei ystyried.

O'r 67 achos a archwiliwyd, yn seiliedig ar asesiad risg Arf Asesu Risg ar y Rhyngrwyd Caint, bodlonodd 51 ohonynt y meini prawf argymelledig. Roedd yr oedi'n ymwneud â materion adnoddau yn bennaf, sy'n cael eu hadolygu.

## Argymhelliad 16

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai prif gwnstabliaid weithio gyda'u byrddau cyfiawnder troseddol lleol i adolygu ac, os oes angen, diwygio'r trefniadau ar gyfer gwneud cais am warantau chwilio.**

**Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr fod yr heddlu'n medru sicrhau gwarantau'n gyflym pan mae plant mewn perygl. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys dichonolrwydd cyfathrebu o bell.**

Dywedir wrthyf nad oes unrhyw faterion hysbys o ran cael gwarantau brys, ond bydd yr Heddlu'n parhau i fonitro a oes problem.

Er fy mod yn fodlon â ffocws Heddlu Dyfed-Powys ar gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein, byddaf yn mynd ar drywydd yr argymhellion o'r adroddiad hwn gyda'r Prif Gwnstabl maes o law er mwyn ceisio sicrwydd bod cynnydd dal yn cael ei wneud.